

IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 8 IONAWR 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Jacobsen a/ac Robson

9 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio o'i chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gallai'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

PENDERFYNWYD – Gwahardd y cyhoedd.

10 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD – Ymdrin â'r materion canlynol fel y nodwyd:

(1) Gwrandawriad Disgyblu 1

Derbyniwyd y Pwyllgor sylwadau gan ddau achwynydd a gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd llogi preifat. Honnodd yr achwynwyr i'r gyrrwr wrthod tâl gan ddweud bod y daith yn rhy fyr. Honnwyd hefyd i'r gyrrwr yrru i ffwrdd gyda drws ochr teithwyr ar agor o hyd.

Dywedodd yr achwynwyr iddynt fynd at dacsî yn y safle tacsîs y tu allan i siop House of Fraser. Agorodd CR y drws gan ofyn i'r gyrrwr a oedd yn rhydd a nododd ei ben, ond pan roddwyd pen y daith iddo, chwarddodd y gyrrwr gan ddweud 'mae hynny'n rhy fyr'. Dywedodd CR iddi wedyn ddweud wrth y gyrrwr na chaniateir iddo wrthod teithwyr. Yna gyrodd i ffwrdd gyda drws ochr teithwyr ar agor. Tynnodd AR lun o'r cerbyd yn gyrru i ffwrdd. Roedd y ffotograff yn rhan o'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai dim ond dau deithiwr benywaidd oedd yn y grŵp ac nad oeddent wedi meddwi.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr fod y ddau deithiwr wedi meddwi ac yn sarhaus felly gyrodd y gyrrwr i ffwrdd gan deimlodd y gallent faeddu ei gerbyd. Gadawodd y gyrrwr yr ardal gan ymuno â safle tacsîs arall. Dywedodd y gyrrwr, pan aeth yr achwynwyr yn sarhaus, y dywedodd wrthynt na fyddai'n cymryd y tâl gan na ddylent siarad ag ef yn y modd hwnnw.

Dywedodd CR na ddefnyddiwyd unrhyw iaith sarhaus. Gyrodd y gyrrwr i ffwrdd gyda'r drws ar agor dim ond pan roddwyd pen y daith. Aeth y tacsîs nesaf yn y safle tacsîs, oedd wedi gweld y digwyddiad, â nhw i ben y daith heb unrhyw broblem.

Wrth grynhoi dywedodd CR nad oedd yn deg i'r gyrrwr wrthod fynd â nhw.

Nid oedd yn ddiogel i ddwy fenyw gerdded adref ar yr amser hwnnw o'r nos ac roedd hawl ganddynt i ddisgwyl cael eu diogelu. Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr fod problem wedi'i nodi gan y fasnach tacsis ac mae gyrrwyr yn tybio beth dylen nhw ei wneud pan fônt yn credu bod teithwyr wedi meddwi. Mae hawl gan yrwyr i wrthod tâl mewn amgylchiadau penodol ac mae wedi arfer yr hawl hwnnw y tro hwn.

Credodd yr Is-bwyllgor fod y tystion yn gredadwy ac wrth gydbwysu tebygolrwydd gwrthodwyd y tâl heb gyfiawnhad.

PENDERFYNWYD – Gohirio trwydded gyrrwr y cerbyd hacni/cerbyd llogi preifat am 10 ddiwrnod am wrthod tâl heb gyfiawnhad.

(2) Gwrandawriad Disgyblu 2

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan ddau Swyddog Heddlu Gwent am nifer o honiadau yn erbyn gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd llogi preifat. Rhoddodd y swyddogion fanylion o'r honiadau a wnaed a'r ymchwiliadau canlyniadol i'r materion hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd unrhyw erlyniadau o ganlyniad i'r ymchwiliadau hynny.

Credodd y swyddogion fod yr holl dramgwyddau honedig, oedd i gyd wedi digwydd yn ardal Caerffili, o natur rywiol ac y dangoson nhw batrwm o ymddygiad oedd yn achos pryder. Roedd y digwyddiadau y ymchwiliwyd iddynt yn gysylltiedig â dyletswyddau'r unigolyn fel gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd llogi preifat.

Derbyniwyd yr Is-bwyllgor sylwadau gan y gyrrwr a'i gynrychiolydd. Aethpwyd i'r afael â phob digwyddiad yn ei dro. Gwadodd y gyrrwr iddo wneud unrhyw ddrygioni.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr eu bod dan yr argraff y byddai achwynwyr pob digwyddiad yn bresennol yn y gwrandawriad. Rhoddodd Cynrychiolydd Cyfreithiol y Cyngor eglurhad. Dywedwyd wrth y gyrrwr a'i gynrychiolydd mai rôl yr Is-bwyllgor oedd edrych ar bob mater sy'n ymwneud â'i ddyletswyddau i ddiogelu'r cyhoedd. Os oes unrhyw amheuaeth am addasrwydd unigolyn yna dylid rhoi'r prawf sifil - cydbwysu tebygrwydd - ar waith. Bydd yr Is-bwyllgor asesu a yw unrhyw berson yn addas ac yn briodol i gadw trwydded ar sail y wybodaeth sydd o'i flaen.

Gwahoddwyd y ddau barti i grynhoi. Dywedodd Swyddogion yr Heddlu fod yr honiadau wedi'u trafod yn fanwl ac er na chymerwyd unrhyw gamau pellach gan y CPS, gwahoddwyd yr aelodau i ffurfio barn gytbwys a gwrthrychol. Digwyddodd y digwyddiadau honedig a gyflwynwyd i'r Is-bwyllgor dros nifer o flynyddoedd ac roedd yr achwynwyr yn annibynnol i'w gilydd. Mae patrwm o ymddygiad o weithrediadau tebyg ac ymddygiad gan y gyrrwr wedi'i nodi ac yn y pen draw hwn oedd prif bryder Heddlu Gwent.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr, ar ôl cyfnod anodd yng Nghaerffili, fod y gyrrwr wedi symud i Gaerdydd i ddechrau o'r newydd. Ymchwiliwyd i'r cwynion i gyd ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Gwadwyd yr holl faterion.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y digwyddiadau a'r patrwm ymddygiad. Cytunodd yr Aelodau fod y digwyddiadau a'r patrwm ymddygiad yn achos pryder difrifol ac nad yw'r gyrrwr yn berson addas a phriodol i gadw trwydded.

PENDERFYNWYD – diddymu Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Llogi Preifat.

(3) Gwrandawriad Disgyblu 3

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cwyn wedi'i dderbyn ynghylch gwrthod tâl. Nid oedd yr achwynydd yn gallu mynychu'r gwrandawriad ac ystyriodd yr Aelodau y datganiad ysgrifenedig a roddwyd.

Siaradodd cynrychiolydd y gyrrwr â'r Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau y gwrthodwyd y tâl achos roedd yr achwynydd wedi meddwi, yn sarhaus ac nad oedd arian ganddi. Nid oedd unrhyw dystion annibynnol ac nid oedd unrhyw gwynion yn erbyn y gyrrwr wedi'u gwneud o'r blaen.

PENDERFYNWYD – Peidio â chymryd mwy o gamau.

(4) Gwrandawriad Disgyblu 4

Derbyniodd yr Is-bwyllgor adroddiad a gofynnwyd iddo ystyried a yw'r gyrrwr yn berson addas a phriodol i gadw trwydded gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd llogi preifat. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gyrrwr dan sylw wedi methu dro ar ôl tro ac yn gyson dangos prawf fod yswiriant dilys ar waith ar gyfer ei gerbydau, er gwaethaf cael ei atgoffa gan y Tîm Trwyddedu.

Siaradodd y gyrrwr â'r Is-bwyllgor a dywedodd wrth yr Aelodau fod ganddo bolisiâu yswiriant ar waith. Roedd wedi gofyn i'w gwmni yswiriant e-bostio prawf o yswiriant at y Tîm Trwyddedu. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dryswch ynghylch y cyfeiriad e-bost cywir. Dywedwyd bod nifer o ffactorau eraill wedi effeithio ar allu'r gyrrwr i roi prawf o yswiriant gan gynnwys gwyliau rhwng Mehefin 2007 a Mehefin 2018; genedigaeth merch a marwolaeth mab anabl.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y gyrrwr ei fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'r angen i gydymffurfio â'r gofynion hyn. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd fod y gyrrwr yn berchennog nifer o gerbydau.

PENDERFYNWYD – Gohirio trwydded gyrrwr y Cerbyd Hacni/Cerbyd Llogi Preifat am 10 ddiwrnod.

(5) Cais 1

Derbyniodd yr Is-bwyllgor gais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Llogi Preifat. Datganodd yr ymgeisydd nifer o euogfarnau ac yn rhan o'r broses ymgeisio gwnaethpwyd gwiriad GDG manwl. Cylchredwyd copi o'r Dystysgrif GDG.

Dywedwyd wrth yr Aelodau i'r ymgeisydd fynd trwy gyfnod anodd iawn yn ystod blynyddoedd cynnar ei fywyd a arweiniodd at sawl euogfarn am amrywiaeth o dramgwyddau. Rhoddwyd i'r aelodau fanylion o amgylchiadau personol yr ymgeisydd ar yr adeg honno.

Gofynnwyd i'r aelodau nodi mai yn 2011 oedd y tramgwydd diweddaraf. Mae'r ymgeisydd bellach wedi priodi ac mae ganddo ddau blentyn. Graddiodd hefyd o'r brifysgol gyda gradd yn Saesneg. Mae gan un o'i blant anghenion arbennig o ganlyniad i gyflwr iechyd. Yr ymgeisydd sydd wedi bod yn brif ofalwr iddi. Byddai gweithio fel gyrrwr tacsï yn rhoi hyblygrwydd i'r ymgeisydd o ran y cyfrifoldebau gofalu hynny.

Ystyriodd yr aelodau y cais. Cytunodd yr aelodau, er bod cofnod troseddol yr ymgeisydd yn y gorffennol yn achos pryder, ei fod wedi dangos yn ddigonol nad yw mewn perygl o droseddu mwyach.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45 pm